



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

CABINET - CRONFA YMDDIRIEDOLAETH AR GYFER POBL SYDD Â NAM AR EU GOLWG

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet - Cronfa Ymddiriedolaeth ar gyfer Pobl sydd â nam ar eu golwg a gynhaliwyd Dydd Mercher, 19 Rhagfyr 2018 am 2.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet - Cronfa Ymddiriedolaeth ar gyfer Pobl sydd â nam ar eu golwg Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd G Hopkins (Cadeirydd)

Y Cyngorydd C Leyshon Y Cyngorydd R Lewis

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Pennaeth Materion Cyfreithiol – Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethol

1 Datgan Buddiant

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

2 YMDDIHEURIAD

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M Norris.

3 Cofnodion

PENDERFYNWYD cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2017 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 Cronfa Ymddiriedolaeth Rhondda Cynon Taf ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth, Ymyriad Tymor Byr, Gofal yn y Gymuned y newyddion diweddaraf am y gwasanaethau sy'n cael ei ddarparu gan Sefydliad y Deillion Caerdydd (yn masnachu fel RNIB Cymru) i drigolion yn Rhondda Cynon Taf. Caiff y gwasanaethau yma eu hariannu gan Gronfa Ymddiriedolaeth, ond mae'r arian wedi mynd yn brin.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod Sefydliad y Deillion Caerdydd (yn masnachu fel RNIB Cymru) wedi bod yn darparu gwasanaethau i unigolion sydd â nam ar eu golwg yn Rhondda Cynon Taf ers mis Ebrill 2012, a hynny am £33,000 y flwyddyn. Yn ogystal â hynny, cyfeiriodd y pennaeth gwasanaeth at y prosiect

newydd sydd wedi'i ariannu gan Gronfa'r Loteri Fawr, sy'n ymgysylltu â chleientiaid sydd â nam ar eu golwg yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful ac yn eu hannog nhw i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon cymunedol, a gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â'u diddordebau.

Cafodd yr Aelodau wybod, yn dilyn cyfarfod rhwng Sefydliad y Deillion Caerdydd a swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r arian, fod Sefydliad y Deillion wedi dweud nad oedd ganddo fath arall o gyllid er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaeth cyfredol yn Rhondda Cynon Taf, er iddo geisio chwilio am gyllid o rywle arall. Nodwyd fod y posibilrwydd o barhau i gynnal gwasanaeth llinell gyswilt Rhondda Cynon Taf, a hynny drwy benodi gwirfoddolwr a fyddai'n gweithio ar safle'r Sefydliad yng Nghaerdydd, wrthi'n cael ei ystyried. Yn ogystal â hynny, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth bod modd i'r grwpiau cymdeithasol cymunedol y mae Sefydliad y Deillion yn eu cefnogi (h.y. Cynon Valley Vision, Grŵp Pontypridd, Grŵp Aberpennar a Grŵp SIDS) fod yn hunangynhaliol.

Aeth y Pennaeth Gwasanaeth ymlaen i ddweud y bydd Uwch Swyddogion y Cyngor yn parhau i gydweithio â Chyfarwyddwr Gweithrediadau Sefydliad y Deillion er mwyn parhau i ystyried y dewisiadau ar gyfer cynnal y gwasanaeth cyfredol ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg yn Rhondda Cynon Taf, a hynny tra bod digon o arian ar ôl yn y Gronfa Ymddiriedolaeth.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Adran 6 yr adroddiad, ac sy'n cynnig y dylai'r Gronfa Ymddiriedolaeth ryddhau'r buddsoddiadau sy'n weddill ar gyfer Elusennau Eglwysig ac Awdurdodau Lleol (CCLA) fel bod modd defnyddio'r arian yma i gefnogi'r gwasanaeth am tua un flwyddyn ychwanegol, sef 2019-2020.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau am waith cadarnhaol Sefydliad y Deillion a'r effaith y byddai rhoi diwedd ar ei wasanaethau yn ei gael ar drigolion y Fwrdeistref Sirol. Cyfeiriodd yr Aelodau at y cynnig i ryddhau'r cyllid a chadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai'r diffyg arian a fyddai ar gael ar ôl i hyn ddigwydd yn golygu y byddai angen cau'r Gronfa Ymddiriedolaeth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020.

Cyfeiriodd yr Aelodau at waith Sefydliad y Deillion ymhellach a chroesawon nhw'r newyddion bod modd i rai o'r grwpiau cymunedol fod yn hunangynhaliol. Yn dilyn ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth bod y Sefydliad ddim yn darparu unrhyw ddyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor yn yr ardal yma, ac mae ymestyn y gwasanaethau sydd eisoes ar gael gan y Cyngor mae'r ddarpariaeth dan sylw. Cyfeiriodd y Cadeirydd at sgwrsiau a chyfarfodydd blaenorol gyda'r Sefydliad dros y blynyddoedd, lle roedd Swyddogion y Cyngor wedi'u rhybuddio y byddai'r arian yn dod i ben, a lle roedd Swyddogion ac Aelodau wedi pwysleisio'r ffaith fod angen i'r Sefydliad chwilio am drefniadau cyllid newydd.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau am y mesurau cyni sy'n wynebu'r Cyngor a dull gweithredu'r Cyngor mewn perthynas ag adolygu'r darpariaethau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a darpariaethau ar gyfer y dyfodol. Gwnaeth yr aelodau sylwadau am yr angen i fwrw ymlaen â threfniadau pontio cyn i'r gronfa ymddiriedolaeth gael ei chau.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r cynnig i ryddhau'r buddsoddiadau CCLA sy'n weddill fel bod modd defnyddio'r cyllid yma i gefnogi'r gwaith pontio a dod â'r gwasanaeth cyfredol i ben am (tua) blwyddyn ychwanegol yn 2019-2020;
2. Y dylai Adran Gyllid y Cyngor (Adran Rheoli'r Trysorlys), sy'n rheoli'r Gronfa Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd, gael cyfarwyddyd i ryddhau'r cyllid sy'n weddill yn unol â phwynt rhif 1 uchod;
3. Nodi y byddai'r Gronfa Ymddiriedolaeth wedyn yn cael ei chau rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 o ganlyniad i ddiffyg arian;
4. Nodi na fydd gan Sefydliad y Deillion Caerdydd safle yn ardal Rhondda Cynon Taf (Stryd y Llys, Pontypridd ar hyn o bryd) unwaith y bydd y Gronfa Ymddiriedolaeth wedi'i chau;
5. Nodi, er y bydd y prosiect 'Lleoedd Newydd, Profiadau Newydd' sydd wedi'i ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr a'i ddarparu gan gydlynnydd RNIB yn dal i ddarparu gwasanaeth i bobl yn Rhondda Cynon Taf, mae'r gwasanaeth yma'n wahanol i'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan gyllid y Gronfa Ymddiriedolaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.25 pm

Y Cyngorydd G Hopkins
Cadeirydd.